Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus dros Zoom ar 24 Tachwedd 2022

Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol:

Enw	Teitl
Mark Polin	Cadeirydd
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Nichola Callow	Aelod Annibynnol
Y Cynghorydd Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd
Hugh Evans	Aelod Annibynnol
John Gallanders	Aelod Annibynnol
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Gill Harris	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
Jacqueline Hughes	Aelod Annibynnol
Y Cynghorydd Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Molly Marcu	Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro)
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Rob Nolan	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
Jane Wild	Aelod Cysylltiol

Hefyd yn bresennol:

David Seabrooke	Pennaeth Cynorthwyol Interim Llywodraethu Corfforaethol
Nikki Foulkes	Rheolwr Allanoli a Mewnoli
Matthew Joyes	Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Andrew Kent	Pennaeth Gwella Gofal wedi'i Gynllunio (interim)
Rebecca Gerrard	Cyfarwyddwr Nyrsio Atal Heintiau a Dihalogi
Andrew Oxby	Rheolwr Cymorth Rhaglen yr Adran Cleifion Allanol
Phil Orwin	Cyfarwyddwr Dros Dro Cyflawni Rhanbarthol
Steve Probert	Llywodraeth Cymru - Arsylwi
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Andrew Doughton	Archwilio Cymru – Arsylwi

Eitem ar yr Agenda gweithredu	Cam
22/242 MATERION AGORIADOL	
22/243 Croeso ac Ymddiheuriadau Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa'r Bwrdd fod croeso i bawb gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg. **22/243.1** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Fôn Roberts, Dylan Roberts, Sue Hill	
22/244 Datganiadau o Fuddiant **22/244.1** Nid oedd datganiadau i'w nodi.	
22/245 Cofnodion Drafft y Bwrdd Iechyd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022 **22/245.1** Derbyniwyd cofnodion drafft y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022, a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ychwanegu rhai addasiadau ansylweddol i'r cofnodion ar ôl i bapurau'r agenda gael eu cyhoeddi. Cytunwyd ar newid i ddau deitl swydd a ddangosir yn y drafft. Cadarnhaodd John Cunliffe ei fod wedi ymddiheuro i'r ddau gyfarfod. **22/245.2** Derbyniwyd cofnodion drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2022, a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir. Cadarnhaodd Ysgrifennydd Interim y Bwrdd fod yr ymatebion i gwestiynau a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi cael eu darparu'n unigol. Yng ngoleuni'r sylw diweddar yn y cyfryngau lleol, codwyd cwestiwn am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd gyda Chyngor Sir y Fflint, a byddai hyn yn cael sylw yn nes ymlaen yn y cyfarfod.	
22/246 Materion yn Codi a Chofnod Cryno o'r Camau Gweithredu **22/246.1** Adolygodd y Bwrdd y cofnod gweithredu. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol: 22/114.9 – Model Gweithredu – Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ynghylch y cynnydd 22/189.1 - Effeithiolrwydd cyfarfodydd - Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei wneud gan Archwilio Cymru; byddai holl aelodau'r bwrdd yn cael eu cyfweld.	**GH**

22/155 – Cynllun Gwella Iechyd Meddwl – Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu'r cynllun. 22/156 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig – Dywedodd y Cadeirydd fod gwaith i wella'r adroddiad hwn yn symud ymlaen. 22/157 Adroddiad Monitro'r Cynllun Blynyddol – cytunwyd i adael y cam gweithredu hwn ar agor	
22/247 Stori Gofalwr **22/247.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth stori'r claf, a gyflwynwyd wedyn ar fideo gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Cleifion Dros Dro. **22/247.2** Stori gofalwr ydoedd, a adroddwyd gan Sue, mam i ddau o blant ag anableddau cymhleth ac a oedd yn ymwelwyr rheolaidd â Glan Clwyd. Roedd y stori'n ymwneud ag argaeledd ystafelloedd Changing Places, teclynnau codi/cyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio, baddonau ar ward y plant, glendid y cyfleusterau a'r defnydd ohonynt gan staff, a'r cyfleusterau hydrotherapi. Roedd pwll hydrotherapi wedi cael ei golli mewn gwaith adnewyddu blaenorol ar y safle. 22/**247.3** Roedd stori Sue wedi cael ei rhannu'n eang gydag uwch staff. Gwnaed newidiadau i'r amserlenni glanhau, a rhoddwyd sylw i fynediad i'r ystafell. Rhoddwyd sylw i gynnal a chadw'r cyfarpar. Glan Clwyd oedd â'r unig gyfleuster Changing Places yn y Bwrdd Iechyd. **22/247.4** Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro gysylltu â'r Aelod Annibynnol John Gallanders ynghylch y sefyllfa o ran hydrotherapi. Nodwyd bod pryderon Sue wedi cael eu codi'n gyflym gan PALS a safle'r ysbyty. Roedd y tîm PALS wedi mynd ar drywydd rhai o'r materion a oedd yn ymwneud â'r safle. **22/248.5** I ymateb i bryder gan Aelod Annibynnol, ymrwymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i arwain darn o waith i adolygu'r amrywiaeth o doiledau a chyfleusterau newid hygyrch a ddarperir ar safleoedd ysbytai acíwt. **22/248.6** Penderfynwyd y dylid derbyn stori'r claf. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro dros Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Phrofiadau yn diolch ar ran y Bwrdd i Sue am rannu ei stori.	**RN** **AW** **MJ**
22/248 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd Nododd y Cadeirydd fod Gill Harris wedi camu i rôl Prif Weithredwr Interim a bod Nick Lyons yn Ddirprwy Brif Weithredwr Dros Dro yn dilyn ymadawiad Jo Whitehead.	
22/249 Adroddiad y Prif Weithredwr Interim	

22/249.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr Interim. Tynnodd y Prif Weithredwr Interim sylw at y gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd ym mis Ebrill. **22/249.2** Diolchodd i'r staff am ddarparu cefnogaeth i geiswyr lloches a oedd wedi'u hanfon i ogledd Cymru yn gynharach ym mis Tachwedd. Roedd tîm amlddisgyblaethol wedi cynnig sgrinio a gofal. **22/249.3** Tynnwyd sylw at y risg o ran gweithredu diwydiannol posibl gan y Coleg Nyrsio Brenhinol yn y DU, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio a lliniaru yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gofynnwyd am weithredu gan y Coleg Nyrsio Brenhinol cyn y Nadolig, a disgwylid canlyniad pleidlais gan UNSAIN yr wythnos nesaf. **22/249.4** Mewn perthynas â chofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru, nodwyd y byddai angen gwneud hyn pe bai'r Bwrdd Iechyd yn dymuno darparu gwasanaethau yn yr ardal hon i gefnogi rhyddhau. **22/249.5** Byddai'r Prif Weithredwr Interim a Linda Tomos yn trafod y gwaith ar ddarparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig. **22/249.6** I gloi, tynnwyd sylw at lwyddiant staff mewn seremonïau gwobrwyo lleol y Bwrdd Iechyd a chenedlaethol, a diolchwyd i bawb a oedd yn gysylltiedig â'u trefnu.	**GH/LT**
22/250 STRATEGAETH A CHYNLLUNIO	
22/251 Cynigion ar gyfer Trawsnewid Gwybodeg yn Ddigidol, Data a Thechnoleg (DDAT) – pobl, proses a thechnoleg **22/251.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiad yn cyflwyno casgliadau'r gwaith darganfod a wnaed gan y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth mewn perthynas â gallu'r Bwrdd Iechyd o ran Data a Thechnoleg Ddigidol.** Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio i gyflwyno'r adroddiad. **22/251.2** Roedd gwaith meincnodi yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi tan-fuddsoddi yn y maes hwn. Roedd bron i 400 o systemau ar wahân yn cael eu rheoli. Roedd y pandemig a seiberymosodiadau diweddar ar systemau gofal iechyd wedi dangos pwysigrwydd y maes hwn ymhellach. Roedd y Pwyllgor PPPH wedi gweld yr adroddiad ac wedi cefnogi'r dull trawsnewid; byddai caffael y sgiliau arbenigol angenrheidiol yn her y byddai angen ei thrafod ymhellach. **22/251.3** Roedd yr adroddiad yn galw am fuddsoddiad newydd o £1.7m yn rheolaidd, a dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio y byddai'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddadfuddsoddi mewn meysydd eraill er mwyn	

canfod hyn. Byddai'r cais yn cael ei ystyried drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cadarnhawyd mai cais am gyllid yn y dyfodol oedd hwn. Cafodd rhywfaint o waith sy'n mynd ymlaen yn 2022/23 ei ariannu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. **22/251.4** Mynegodd yr Aelod Annibynnol arweiniol ar gyfer y maes hwn ei gefnogaeth i'r adroddiad a'i gynigion, a fyddai'n cefnogi trawsnewid a gwybodaeth a dulliau gwneud penderfyniadau ar gyfer cleifion. Gofynnodd i'r Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth ddarparu rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu o ran cyllid refeniw a chyfalaf a'r niwed posibl a achosir i gleifion oherwydd diffyg gwybodaeth ddigidol – mae'r buddion sy'n gysylltiedig â'r achos hwn yn seiliedig ar hyn. Roedd angen cynnwys elfennau Digidol/Data fel rhan o achosion busnes – ystyriwyd nifer o gyd-ddibyniaethau, a byddai elfennau digidol yn cael eu cynnwys. **22/251.5** Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar gynigion eraill sy'n mynd i'r broses flaenoriaethu ariannol ehangach. Ychwanegodd y Cadeirydd y gallai Byrddau Iechyd wynebu toriad termau real mewn cyllid yn 2023/24, a gallai hyn arwain at rai dewisiadau anodd. Gofynnodd am gael gweld opsiynau eraill yn cael eu cyflwyno, a nodwyd bod opsiynau eraill wrthi'n cael eu datblygu. **22/251.6** Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai trawsnewid Gwybodeg yn gynigion DDAT yn golygu bod angen refeniw ychwanegol o £1,657,035 er mwyn dechrau lliniaru'r risgiau a gyflwynir yn y BAF. Gwneir hyn er mwyn cyflwyno'r sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno DDAT yn sylfaenol, a sicrhau bod manteision yn cael eu gwireddu ar brosiectau yn y dyfodol yn unol â strategaethau'r Bwrdd Iechyd. **22/251.7** Cydnabyddir y bydd y cynnig hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â cheisiadau a chyflwyniadau eraill y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Hefyd, gofynnir i'r Bwrdd gydnabod y cynnydd cyflym yn y defnydd o DDAT a'i gymhlethdod dros y tair blynedd diwethaf a'r cynnydd mewn risgiau seiberddiogelwch, yn ogystal â'r angen am gylchoedd adnewyddu ac uwchraddio amlach ar gyfer yr holl ystâd DDAT. Roedd hyn yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf a refeniw sylweddol.	**DR/CS** **CS**
22/252 - ADRODDIADAU ANSAWDD, DIOGELWCH AC ARWYDDOCAOL	
22.253 Adroddiad Sicrwydd Gofal heb ei Drefnu **22/253.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro yn nodi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd o ran cynnydd y rhaglen gofal wedi'i gynllunio yn unol â rhaglen Llywodraeth Cymru i foderneiddio'r gwasanaethau hyn ac i leihau rhestrau aros. Byddai dadansoddiad pellach yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr. Tynnwyd sylw at y cynllun "bag coch" gyda chartrefi gofal. Addawodd y byddai'n darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ar wasanaethau diagnostig, gan gynnwys a ellid lleihau nifer y ceisiadau am brawf.	**GH/PO**

22/253.2 Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y Cyfarwyddwr Cyflawni Ranbarthol Dros Dro i gyflwyno'r adroddiad. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y gwaith yn ymwneud â Nod 2 y Chwe Nod; gyda chyfleusterau newydd yn dod yn weithredol yn y dyddiau nesaf yn Wrecsam. Tynnodd sylw at uwchgynhadledd gyda'r gwasanaeth ambiwlans ar fater trosglwyddo. Roedd amrywiaeth o ffactorau'n gyfrifol am heriau o ran perfformiad. **22/253.3** Mewn perthynas â chwestiwn ar y gyfradd dderbyn, nodwyd mai cyfartalog oedd hon, roedd yn gymharol ac yn amrywio ychydig rhwng safleoedd. Roedd yn tueddu i gynyddu pan oedd safleoedd dan bwysau. Byddai achosion categori 4 a 5 yn cael eu ffrydio i ganolfan driniaeth frys, sef lleoliad mwy priodol. **22/253.4** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod y cynllun dan berchnogaeth glinigol. Dywedodd fod y berthynas â Stoke yn Lloegr yn dal yn gadarnhaol. **22/253.5** Roedd cwblhau'r broses recriwtio yn cyfeirio at gamau gweithredu y cytunwyd arnynt fel rhan o achos busnes penodol dros fuddsoddiad ychwanegol. Roedd bylchau'n dal i godi oherwydd trosiant arferol. Cafodd llwyddiant y gwaith recriwtio ei wella drwy allu disgrifio model gofal clir a chyfredol. **22/253.6** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol Dros Dro fod pob safle yn defnyddio'r metrigau a'r dangosfwrdd i gefnogi'r gwaith monitro. Roedd parodrwydd i ddysgu a mabwysiadu mesurau a chamau gweithredu a oedd yn gweithio. Holodd y Cadeirydd am effaith y mesurau a'r gweithgareddau a adroddwyd; nodwyd bod y galw wedi parhau ond bod y ganolfan triniaeth frys yn Wrecsam bedair wythnos ar ei hôl hi. **22/253.7** Roedd y Bwrdd wedi cael yr adroddiad	
22/254 Adroddiad sicrwydd Gofal wedi'i Gynllunio **22/254.1** Cafodd y Bwrdd adroddiad yn rhoi sicrwydd ar gynnydd y rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn unol â rhaglen Llywodraeth Cymru i foderneiddio gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio ac i leihau rhestrau aros. Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y Cyfarwyddwr Cyflawni Ranbarthol Dros Dro i gyflwyno'r adroddiad. Tynnodd sylw at welliant yn y nifer sy'n aros yn hir a'r gwelliant yn y gwaith dilynol ar gyfer cleifion mewn meysydd arbenigol penodol, a ddisgrifiwyd. Addawodd Andrew Oxby ddarparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ar restrau dilynol. Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar gynlluniau Abergele a Llandudno. **22/254.2** Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Andrew Kent, Andrew Oxby a Nikki Foulkes i ychwanegu at gyflwyniad yr adroddiad. Disgrifiwyd agweddau ar ailddechrau, adfer a chynaliadwyedd; roedd trawsnewid mawr o ran gofal wedi'i gynllunio gyda'r bwriad o leihau'r ôl-groniad oherwydd Covid a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio. **22/254.3** Roedd Cleifion Allanol yn cael sylw cynnar. Roedd trefniadau monitro ar waith a chafwyd gostyngiad o 30% rhwng mis Awst a mis Tachwedd, a'r nod	**AO**

oedd 52% erbyn 31 Rhagfyr. Roedd triniaeth yn ei thro wedi cael ei rhoi ar waith i reoli rhestrau cleifion allanol yn briodol. **22/254.4** O ran y cyflymder wrth ddatblygu'r ganolfan driniaeth ranbarthol hyd at 2027, disgrifiodd Andrew Kent y camau sydd eu hangen erbyn hyn, gan gynnwys OBC/FBC ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn y cyfamser, roedd darpariaeth ychwanegol yn cael ei hychwanegu lle bo hynny'n bosibl. **22/254.5** Roedd gwasanaethau therapi yn cael eu defnyddio i gefnogi cleifion, ac roedd cynigion pellach i ymestyn cynlluniau yn cael eu datblygu. Gofynnodd y Cadeirydd am i'r siartiau IQPR ddangos yn glir y rhagolygon a'r llwybrau. O ran datblygu theatrau, roedd achos busnes yn cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr. Roedd opsiwn Llandudno yn mynd rhagddo; roedd nifer o faterion yn ymwneud â chynllun safle Abergele. **22/254.6** O ran gwella gofal llygaid ac Offthalmoleg, roedd ffocws ar ofal eilaidd i gynyddu'r llif gwaith gan ddechrau ym mis Ionawr. Roedd triniaethau syml yn cael eu rhoi ar gontract allanol. **22/254.7** Cafodd y Bwrdd yr adroddiad.	
22.255 Adroddiad Sicrwydd Cynllun y Gaeaf **22.255.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Prif Weithredwr Dros Dro yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ynghylch datblygu Cynllun y Gaeaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol Dros Dro wrth y Bwrdd fod y Weithrediaeth, dan arweiniad y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro, yn datblygu'r cynllun a'r map manwl mewn perthynas â phwysau a ragwelir yn y gaeaf. Roedd adborth gan y Pwyllgor PPPH wedi'i ystyried, a byddai'r fersiwn terfynol yn cael ei gytuno ddechrau mis Rhagfyr. **22.255.2** Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro fod y Weithrediaeth yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu cyn canllawiau Cymru, gan geisio darparu staff digonol, lleihau nifer y bobl sy'n mynd i adrannau brys a derbyniadau i adrannau brys. Roedd y trothwy gyda'r EPRR neu'r dull gweithredu brys ar raddfa lawn yn cael ei ddiffinio. **22.255.3** Tynnwyd sylw at y sefyllfa bresennol o ran staff yn gwisgo mygydau. Byddai'r wybodaeth a ddarperir i staff ynghylch lle i gael gafael ar y brechlyn yn cael ei hadolygu. Tynnwyd sylw at rôl y gwasanaeth 111 yn cyfeirio pobl at y gwasanaeth mwyaf priodol. **22.255.4** I ymateb i gwestiwn, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro fod mwy o drafodaeth ynghylch Cysylltiadau Cymunedol. Roedd cynlluniau'r gaeaf ar gyfer awdurdodau lleol wedi'u cyfnewid, ond nid oeddent wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn. Roedd hyder ynghylch cynlluniau i agor gwelyau i gleifion mewnol, ond roedd staffio yn parhau i fod yn risg. Roedd y gyfarwyddiaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn ymwneud yn gadarnhaol â hyn.	**PO**

22.255.5 Fe wnaeth y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ddisgrifio'r gwaith, gan gynnwys ar gost ar welyau i gleifion a oedd yn feddygol gymwys i'w rhyddhau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Weithrediaeth roi gwybod i'r Bwrdd os bydd unrhyw achos sylweddol o wyro oddi wrth yr hyn a ddisgrifiwyd.	
22.256 Adroddiad Diogelwch Cleifion **22.256.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, gyda gwybodaeth a dadansoddiad am faterion pwysig sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch cleifion sydd wedi codi yn ystod y ddau fis blaenorol, ochr yn ochr â data tueddiadau tymor hir, a gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill. **22.256.2** Yn dilyn adroddiad sicrwydd y Cadeirydd gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a gyflwynwyd ar y Bwrdd ar 29 Medi, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi cynllunio Archwiliad Dwfn o ddiogelwch llawfeddygol a rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd. Tynnodd sylw at welliannau eraill a wnaed i'r adroddiad hwn. **22.256.3** Roedd gwaith ar y gweill i leihau'r ôl-groniadau o gwynion a digwyddiadau. Gwnaed gwelliannau o ran dysgu o gwynion, a'r amser lle'r oedd angen ymatebion ysgrifenedig. Roedd y monitro'n digwydd drwy ymweliadau gan gymheiriaid, cynllun newydd ar gyfer achredu wardiau, a fforwm dysgu sefydliadol newydd a fyddai'n cyfrannu at archwilio clinigol. Addawodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y byddai unrhyw faterion o bwys sy'n deillio o reoleiddwyr yn cael eu hadrodd yn brydlon i aelodau'r Bwrdd. **22.256.4** Nodwyd y prif bwyntiau canlynol: • Y prif themâu o ran digwyddiadau oedd cwympiadau a briwiau pwyso ymysg cleifion mewnol, ac adnabod cleifion sy'n dirywio • Adroddwyd am bedwar 'digwyddiad byth' eleni, yn ymwneud â diogelwch llawfeddygol • Roedd un hysbysiad Adran 28 wedi dod i law y tu allan i'r cyfnod adrodd presennol • Roedd adborth cleifion amser real yn dal i gael ei ehangu **22.256.5** Mewn perthynas â chwestiwn am gadw cofnodion, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth mai'r dull gweithredu oedd cefnogi staff, darparu hyfforddiant a gosod disgwyliadau clir. Roedd dull gweithredu amlddisgyblaethol yn cael ei ddefnyddio. Roedd Cofnod Gofal Cymru yn cael ei roi ar waith. **22.256.6** Cadarnhaodd fod y broses a'r gwiriad terfynol o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu hadolygu a'u gwella.	
22.257 Adroddiad Fasgwlaidd **22.257.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i sicrhau	

cynaliadwyedd parhaus y gwasanaethau llawfeddygol fasgwlaidd ar ôl rhoi mesurau uwchgyfeirio ar waith ac sy'n mynd ymlaen i ymateb i bryderon a godwyd gan y Panel Adolygu Ansawdd Fasgwlaidd (VQRP) ym mis Gorffennaf 2022, a nodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd. Disgwylir yr adroddiad llawn ym mis Ionawr. Disgwylid y byddai adolygiad AGIC yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. **22.257.2** Tynnodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sylw at yr adroddiad ar gyfradd yr achosion o dorri braich neu goes i ffwrdd, a byddai rhagor o wybodaeth yn dod gerbron y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE). Ystyriwyd bod cais NVR (Cofrestrfa Fasgwlaidd Genedlaethol) y Bwrdd yn gywir, ond roedd angen mwy o ddadansoddi a dilysu. Byddai'r diffiniadau o mân a mawr yn cael eu hegluro. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod pob achos o dorri braich neu goes i ffwrdd yn drasiedi i'r claf. **22.257.3** Fe wnaeth y gwaith barhau gyda Stoke-on-Trent. Rhoddwyd y gorau i'r trefniadau Aur sy'n rheoli rotas llawfeddygol yn dilyn cynnydd o ran sefydlogi'r staffio. Nodwyd bod gwasanaethau fasgwlaidd wedi cael eu cyflwyno i'r Cwadrant Llawfeddygaeth ac Anesthetig a oedd yn mynd i'r afael â'r mater yn ymwneud ag arweinydd clinigol. **22.257.4** Roedd y gwaith i ddeall profiad cleifion yn mynd yn ei flaen. **22.257.5** Cafodd y Bwrdd yr adroddiad, ac roedd yn cefnogi'r gwaith parhaus i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau fasgwlaidd diogel ac effeithiol. Nodwyd y prif bwyntiau canlynol: • y camau gweithredu sy'n parhau i fod ar waith yn dilyn pryderon y VQRP, gan gynnwys y cynllun gwella fasgwlaidd (VIP). • bydd Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) yn adolygu'r gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2022. • mae canlyniadau clinigol i gleifion sy'n cael torri braich neu goes i ffwrdd yn cyd-fynd ag unedau cymheiriaid. • cyhoeddodd y Gofrestrfa Fasgwlaidd Genedlaethol ei hadroddiad ar gyfer 2022 ar Dachwedd 10fed ac mae cyfraddau marwoldeb BIPBC yn parhau o fewn y terfynau hyder. • mae'r gwaith o ddatblygu llwybr clinigol wedi dechrau ar gyfer cleifion sydd â choesau isgemig. • canlyniad yr adolygiad gan gymheiriaid ar fynediad i'r arennau fasgwlaidd. • mater adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) gan Grwner Ei Fawrhydi (HMC). • mae digwyddiad a gategoreiddiwyd yn flaenorol fel digwyddiad byth wedi cael ei israddio.	**NL**
22.258 Rheoli ac Atal Heintiau **22.258.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, a rhoddodd y Cadeirydd groeso i Rebecca Gerrard i siarad i'r adroddiad: 22.258.2 Nodwyd y prif bwyntiau canlynol::	

• ar hyn o bryd mae dwy risg atal haint Haen 1 ar y gofrestr risgiau. • Mae COVID wedi parhau i dra-arglwyddiaethu ar waith y tîm Atal Heintiau, ond nid oes angen profi ac ynysu cysylltiadau mwyach ac mae cyfnod ynysu byrrach a gefnogir gan brofion LFT wedi galluogi baeau a wardiau caeedig i agor yn gyflymach, gan arwain at well llif cleifion. • Mae ymweliadau'n parhau fel cyn y pandemig, ond ailgyflwynwyd mygydau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae ynysu cleifion symptomatig a phositif yn parhau i fod yn her sy'n arwain at achosion parhaus a chau gwelyau, yn enwedig pan nad yw wardiau cohortau ar gael. • Y Rhaglen Gofal Diogel Glân a Gofal Heb Niwed a'r cynnydd gyda'r ymgyrchoedd presennol; gan gynnwys yr ymgyrch 'Byddwch yn Falch o'n Lle' drwy lansio'r fethodoleg 5S, 'clirio'r llanast' a 'gwaredu'r sbwriel'. • Datblygiadau Atal Heintiau Ystadau a Chyfleusterau, gan gynnwys 'chwiliad fforensig' a phrofion ATP gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i dynnu sylw at fannau sydd wedi'u heintio â hylifau'r corff, a phrawf Purdeb Aer yn cael ei gynnal ar ward Hebog yn YG. • Dihalogi; cynhaliwyd adolygiad strategol o ddihalogi dyfeisiau meddygol gan y Bartneriaeth Cydwasanaethau ym mis Awst ac roedd yn tynnu sylw at nifer o bryderon yn ymwneud â seilwaith, cyfarpar ac amgylchedd a fydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf i foderneiddio a bodloni canllawiau cenedlaethol. • Defnydd priodol o Wrthfiotigau; mae BIPBC ar y trywydd iawn o ran Nod Gwella Llywodraeth Cymru i sicrhau gostyngiad o 25% o leiaf yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y gymuned; ar ddiwedd 21/22 roedd cyfanswm y gostyngiad yn 38.6% **22.258.3** Nododd y Cadeirydd fod y siartiau'n dangos bod y Bwrdd Iechyd yn rhedeg yn agos at ei lwybrau. Nodwyd bod mesurau priodol ar waith i fynd i'r afael ag achosion, er nad oedd, yn aml, ddigon o ystafelloedd ochr i sicrhau bod modd ynysu'n amserol pan fo angen. **22.258.4** O ran cyfrifoldebau glanhau ysbytai, roedd y rhain wedi'u rhannu rhwng staff nyrsio a staff ystadau a bu problemau staffio ar draws y ddau. Gwnaed cynnydd o ran adolygu effeithiolrwydd gwaith glanhau dwys. Gwnaed ymgais i sefydlu tîm glanhau dwys pwrpasol. **22.258.4** Cytunwyd y byddai adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Gofynnodd y Cadeirydd i daith gerdded o gwmpas gael ei threfnu ar ei gyfer.	**AW/RG**
22.260 Staff nyrsio **22.260.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, yn manylu ar lefelau staff nyrsio priodol ar gyfer pob ward unigol sy'n ymwneud ag adrannau 25B i 25E o'r Ddeddf ac yn cwrdd â'r *"ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio".*	

22.260.2 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wrth y Bwrdd fod y broses a'r archwiliad a'r her wedi'u gwella. Mynegodd hyder yng ngallu'r Bwrdd Iechyd i recriwtio'r staff angenrheidiol. Cytunodd i gynnwys mwy yn yr adroddiad am y sgiliau sydd eu hangen. **22.260.3** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a'r sicrwydd mewn perthynas â'r sefydliad yn cyflawni ei *"ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio"* ymhob ward sy'n dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.	**AW**
22.261 Adroddiad Gofal Sylfaenol **22.261.1** Derbyniodd y Bwrdd adroddiad gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Clinigol Integredig yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau ac yn tynnu sylw at waith i ddatblygu strategaeth/cynllun Gofal Sylfaenol sy'n cyd-fynd â dull strategol a chlinigol y Bwrdd Iechyd, ac sy'n ceisio darparu fframwaith clir ar gyfer darparu gofal o ansawdd yn nes at y cartref. **2.261.2** Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol i gyflwyno'r adroddiad. Tynnwyd sylw at ddatblygiad yr academi ddeintyddol. Roedd mwy o alw am ofal sylfaenol ac roedd hyn yn cael ei fonitro. **22.261.3** Mewn perthynas â chwestiwn am gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r pwysau; cytunwyd i fynd â'r mater hwn y tu allan i'r cyfarfod. Byddai'r gwahanol ddulliau o fesur arferion a Reolir a GMS yn cael eu hegluro. **22.261.4** Bu problem gyda fferyllfeydd cymunedol yn darparu pecynnau swigod i gleifion sydd newydd gael eu rhyddhau, gan achosi oedi. Byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn trafod hyn y tu allan i'r cyfarfod. **22.261.5** Roedd rhywfaint o gyfle i ailddechrau ymgynghori wyneb yn wyneb. Addawodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y lefelau uwchgyfeirio. Nododd y Bwrdd: 1. Y galw cynyddol am wasanaethau gofal sylfaenol, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynaliadwyedd 2. Y camau sy'n cael eu cymryd gyda chontractwyr a chlystyrau gofal sylfaenol i reoli'r galw hwn ac i ddiwallu anghenion pobl gogledd Cymru yn y ffordd orau 3. Cytuno i adroddiad diweddaru ar wahân ar Ddatblygu Clwstwr Carlam gael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ddiweddarach	**NL** **NL**
22/262 Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd – Iechyd Meddwl a Lles **22/262.1** Fe wnaeth y Bwrdd dderbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd.	

22/262.3 Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r canlynol fel ffactorau cefnogi ar gyfer llesiant meddyliol: **Bod mewn iechyd corfforol da** – Bod yn egnïol yw'r cam mwyaf amddiffynnol y gallwn ei gymryd ar gyfer iechyd meddwl a llesiant da. **Amgylchedd diogel i deulu a ffrindiau, nawr ac yn y dyfodol** – Mae bod yn rhan o gymdogaeth ddiogel ofalgar yn hanfodol ar gyfer llesiant meddyliol. Yn anffodus, mae gwahaniaethau mewn llesiant meddyliol rhwng cymunedau cefnog, difreintiedig a dan anfantais. Mae'r rhain yn cael eu gyrru gan ansawdd ysgolion, swyddi, tai a'r gymdogaeth. **Bod yn rhan o gymuned a chael cefnogaeth gan gymuned** – Mae cysylltiadau a rhwydweithiau teuluol a chymunedol cryf yn hanfodol er mwyn meithrin hunan-barch a hyder i feithrin cysylltiadau cymdeithasol sy'n helpu i leihau pryder a straen. **Mae bod yn rhydd o straen ariannol a bod yn ariannol ddiogel** – Mae cyfoeth, neu ddiffyg cyfoeth, yn cael effaith ddofn ar les meddyliol ymhob pob cam o fywyd. Mae tlodi yn achosi straen, pryder ac iechyd gwael, ac mae'n lleihau hapusrwydd, lles ac yn byrhau bywydau. **22/262.3** Bu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yn myfyrio ynghylch effaith Covid ar les meddyliol pobl. Diolchodd i'r trydydd sector am eu cyfraniadau. Pwrpas yr adroddiad oedd ysgogi trafodaeth am yr hyn y gellid ei wneud i wella lles meddyliol. **22/262.4** Roedd aelodau'r Bwrdd yn croesawu'r adroddiad. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r gymuned drwy amrywiaeth o ddulliau.	
22/263 Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) **22/263.1** Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) a Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru. **22/263.2** Cadarnhaodd y Bwrdd y diweddariadau ar gyfer y cyfnod 25 Awst – 4 Tachwedd 2022.	
22/264 LLYWODRAETHU	
22.265 - Adroddiad Ymyriadau wedi'u Targedu **22.265.1** Cafodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr Interim, a gafodd sylw gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a oedd yn atgoffa'r Bwrdd fod y cynnydd hyd at lefel 3 yn heriol. **22.265.2** Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn Ymyriad wedi'i Dargedu ym mis Mawrth 2021. Drwy'r broses hon, mae BIPBC yn rhoi	

tystiolaeth o newidiadau a gwelliannau cynaliadwy i Lywodraeth Cymru. Mae'r Weithrediaeth ac Uwch Dimau'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella'r gwasanaethau ac i adael yr ymyriad pan fydd modd dangos tystiolaeth o hyn.

22.265.3 Mae'r fframwaith Ymyriad wedi'i Dargedu yn seiliedig ar fatrics aeddfedrwydd ar gyfer 6 maes. Bob chwe mis mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud hunanasesiad o gynnydd a gosod targed ar gyfer y chwe mis dilynol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r broses o sefydlu sefyllfa hunanasesu ar gyfer BIPBC ar gyfer mis Tachwedd 2022 a sefyllfa darged.

22.265.4 Roedd y Bwrdd wedi derbyn manylion cynhwysfawr am yr holl fatricsau aeddfedrwydd, tystiolaeth a gyflwynwyd a chynnydd cyfredol yng Ngweithdy'r Bwrdd ar 13
Hydref 2022. Gofynnodd y Gweithdy i'r Grŵp Llywio Ymyriadau wedi'u Targedu gymedroli'r sgoriau hunanasesu.
Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r hunanasesiadau a ddangosir isod.

Domain	Board Agreed Target for November 2022 (at May 2022 Board)	Recommended Maturity Matrices point prior to Board Workshop and TI Steering Group Moderation	Recommended Reference Point for November 2022. (Moderated at October TI Steering Group)	Recommended Target for May 2023. (Moderated at October TI Steering Group)	Recommended Target to achieve by November 2023 (Moderated at October TI Steering Group)
All ages Mental Health	3	2	2	2	3
Strategy & Planning	3	2	2	2	3
Leadership	2	2	2	2	3
Engagement	4	2	2	3	3
Performance	N/A	2	1	1	2
Ysbyty Glan Clwyd	N/A	1	1	2	2

22.266 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd

Doedd dim materion i'w hadrodd.

22/267 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori

22/267.1 Derbyniodd y Bwrdd adroddiadau ac uwchgyfeiriadau o'r cyfarfodydd canlynol:

Cabinet
Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth
Fforwm Partneriaeth Leol
Y Pwyllgor Cydymffurfiad Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol
Grŵp Llywio Gwella Ymyriadau wedi'u Targedu (TIIF)
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau

Gwahoddodd y Cadeirydd arweinwyr o'r cyfarfodydd hyn i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw bwyntiau o bwys: **22.267 - Adroddiad y Cabinet** Roedd yr adroddiad gan y Cabinet yn cwmpasu 5 cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf a mis Awst 2022. Roedd y prif themâu'n ymwneud ag ymyriadau fasgwlaidd wedi'u targedu a Gwneud yn Ddiogel (paediatreg). **22.268 - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth – 27 Hydref** Tynnwyd sylw at y trafodaethau ynghylch y sefyllfa ariannol a'r adferiad. **22/269 Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth – 13 Medi ac 8 Tachwedd** Tynnwyd sylw at y Gweithdy Bwrdd arfaethedig ar 15 Rhagfyr. **22/270 Fforwm Partneriaeth Leol – 11 Hydref** Nodwyd. **22/271 Pwyllgor Cydymffurfiaeth a Galluedd Iechyd Meddwl – 4 Tachwedd** Nodwyd. **22.272 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad – 1 Tachwedd** Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ymateb wedi'i dderbyn i adroddiad y Pwyllgor i'r Bwrdd ar 29 Medi. **22.273 Grŵp Llywio Ymyriadau wedi'u Targedu – 22 Medi a 24 Hydref** Nodwyd.	
PERFFORMIAD A CHYFLAWNI	
22/274 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad **22.274.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol. Nodwyd bod ystod o faterion perfformiad wedi eu trafod eisoes heddiw. **22.274.2** Tynnodd yr adroddiad sylw at y materion canlynol sy'n peri pryder: • Mae cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am ddiagnosis penodol yn parhau i gynyddu, o 7,389 (Awst 2021) i 9,464 (Medi 2022) • Mae nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd wedi dechrau cynyddu'n araf, o 23,076 (Ion 2022) i 26,515 (Awst 2022)	

• Mae nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol fel claf allanol sy'n cael eu dal yn ôl fwy na 100% wedi cynyddu o 55,286 (Awst 2021) i 61,488 (Medi 2022) • Mae nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos am atgyfeiriad i driniaeth wedi cynyddu o 55,295 (Awst 2021) i 64,871 (Gorffennaf 2022) ond mae'n ymddangos eu bod yn sefydlogi gyda 64,788 wedi'u cofnodi ar gyfer mis Medi 2022 • Roedd gwariant asiantaethau fel canran o gyfanswm y bil cyflogau wedi cynyddu o 4.8% (Awst 2021) i 7.2% (Gorffennaf 2022) ond mae'n dechrau disgyn ar 6.5% ym mis Medi 2022	
22/275 Adroddiad Monitro'r Cynllun Blynyddol **22/275.1** Cafodd y Bwrdd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol. Nodwyd bod 49 cynllun yn cael eu monitro, 24 ar y trywydd iawn, 19 oddi ar y trywydd ac wedi'u lliniaru; 6 rhaglen yn cael eu gohirio/ddim yn mynd rhagddynt. **22/275.2** Cytunwyd y byddai gwelliannau pellach i'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth a gwell sicrwydd i aelodau annibynnol o ran cynnydd. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio gwrdd â chadeiryddion pwyllgorau i ail-lansio'r adroddiad ar gyfer 2023/24. **22/275.3** Myfyriodd y Cadeirydd ynghylch cynnydd gyda gwasanaethau strôc. O ran Radioleg, roedd yn poeni am roi sylw i amseroedd aros. Cytunodd y Cyfarwyddwr i godi'r mater yn ei adroddiad nesaf ar Ofal wedi'i Gynllunio.	**CS** **PO**
POBL AC ADNODDAU	
22.276 - Adroddiad Cyllid - Mis 6 a 22.277 Adroddiad Arbedion ac Adfer **22.276.1** Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cyllid a daeth y Cadeirydd â hwy at ei gilydd. Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro i gyflwyno'r adroddiadau. **22.276.2** Dywedodd yr adroddiad mai'r sefyllfa gronnus ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg yn erbyn cynllun o £3.2 miliwn. Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £10m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Tîm Gweithredol wedi sefydlu Grŵp Adfer Ariannol er mwyn goruchwylio gwelliannau yn y sefyllfa ariannol a chynllun adfer ariannol. **22.276.3** Yr arbedion a wnaed yn y 6 mis hyd at fis Medi 2022 oedd £8.6m yn erbyn cynllun o £9.2m, sef diffyg o £0.6m. Arbedion anddychweliadol a ddarparwyd oedd £3.4m. Y rhagolwg arbedion yw £15.2m, sydd £19.8m yn llai na'r targed o £35m ar gyfer y flwyddyn. **22.276.4** Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro sylw at y pwysau chwyddiant a chyfaint sy'n deillio o Ofal Iechyd Parhaus, rhagnodi a ffitrwydd meddygol i ryddhau. Arweiniodd mesurau lliniaru'r cynllun adfer at y rhagolwg presennol. Roedd £8m o lithriant yng nghyllid Llywodraeth Cymru – byddai unrhyw benderfyniad i adfer hyn yn effeithio ar sefyllfa'r Bwrdd Iechyd. Byddai angen i'r	

Bwrdd Iechyd ofyn am gymorth ariannol strategol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i ragolwg o'r sefyllfa o ran diffyg. **22.276.5** Gofynnwyd am gymorth ychwanegol ynghylch pwysau presgripsiynu fel rhan o gynllun Cymru gyfan. Roedd mesurau lliniaru'r Cynllun Adfer a gyflwynwyd gan y Cymunedau Gofal Iechyd Integredig yn cael eu dilysu gan y Gweithredwyr. Byddai hyn yn cael ei ystyried gan y PFIG. **22.276.6** Mewn perthynas â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd gyda chredydwyr awdurdodau lleol a gofnodwyd yn y cyfryngau lleol ar gyfer Cyngor Sir y Fflint, disgrifiodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro y ffordd yr oedd pecynnau Gofal Iechyd Parhaus yn cael eu rheoli. Cadarnhaodd fod deialog rheolaidd gyda phartneriaid awdurdodau lleol. Gofynnwyd am gyfarfod briffio i aelodau ar y mater hwn. **22.276.7** O ran y tybiaethau ynghylch y diffyg, cafwyd tystiolaeth fesul cynllun a oedd yn cael ei phrofi'n barhaus ar y cyd ag arweinwyr gweithredol. O ran gwariant ar asiantaethau, roedd y sefyllfa a adroddwyd yn dirywio; byddai'r Pwyllgor PFIG yn cael dadansoddiad pellach mewn perthynas â'r sefyllfa cyn covid. Byddai rhyddhau'r croniad gwyliau blynyddol yn golygu dychwelyd i'r rheol cyn covid ynghylch cario gwyliau blynyddol drosodd. **22.276.8** Byddai'r Adran Gyllid yn cyflwyno'r opsiynau i'r Weithrediaeth pe bai angen gwneud dewisiadau a allai effeithio ar ansawdd. Byddai unrhyw syniadau o'r fath yn destun craffu gofalus iawn. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Interim fod y dull gweithredu'n parhau i ganolbwyntio ar enillion effeithlonrwydd. **22.276.9** Y proffil presennol oedd diffyg o £10m ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â'r rheol tair blynedd, y dyhead oedd mantoli'r gyllideb. Nodwyd bod yr Adran Gyllid yn parhau i ddarparu uwch bresenoldeb a chapasiti yn cefnogi'r IHCs a gwasanaeth costau canolog. **22.276.10** Roedd gwahaniaethau rhwng y ffigurau manwl a ddangosir ar dudalennau 6 a 10 yr adroddiad yn deillio o wahaniaethau yn y ffordd y cofnodwyd incwm. Addawodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro y byddai'n darparu cysoniad yn y cyswllt hwn. **22.276.11** Roedd cydweithio'n digwydd gyda'r tîm trawsnewid mewn perthynas â'r cynllun arbedion i ail-gydbwyso arbedion trawsnewidiol a thrafodol. Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiadau.	**RN**
MATERION I GLOI	
22.278 Eitemau i'w Cyfeirio at Bwyllgorau Byddai'r sefyllfa arbedion ac adennill yn parhau i gael eu huwchgyfeirio tan ar ôl cyfarfod nesaf o'r PFIG. **22.258 Atal a Rheoli Heintiau –** Adroddiad i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar lanhau	**AW**

22/279.1 Adolygu'r Risgiau y Tynnwyd Sylw atynt yn y Cyfarfod Nid oedd dim i'w nodi.	
22/280 Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd i adrodd yn ei gylch yn Gyhoeddus Nodwyd yr adroddiad.	
22/281 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf • 26 Ionawr 2023	
22/282 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd **22/282.1 Penderfynwyd** eithrio'r wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.	